Ysgol Penrhyn-coch

Yn gyntaf oll a gawn ni ddymuno Blwyddyn Newydd Ddedwydd i bawb. Bu wythnos olaf y tymor diwethaf yn un eithaf prysur yn hanes yr ysgol. Bu parti Nadolig yr Urdd yn un llwyddiannus iawn. Cafwyd te ardderchog wedi ei baratoi gan y mamau a dilynwyd y wledd gyda nifer o ffilmiau diddorol a'r plant yn mwynhau pob munud ohonynt. Prif ddigwyddiad y noson, wrth reswm, oedd ymweliad Sion Corn. Nid oedd chwyddiant na streiciau wedi effeithio dim ar ei garedigrwydd ef. Rhaid yw diolch i nifer o gyfeillion am fod mor garedig tuag at y plant, yn eu plith Mr a Mrs Wyn Humphreys, Maesyfelin am y Goeden Nadolig hardd, Mr a Mrs Cyril P. Jenkins, Tŷ-mawr am roddi ffrwythau a chnau i bawb. Mr a Mrs David Charles Evans, Morawel, Bow Street am siocled a chreision, Mr a Mrs P. Edwards, Fodwen am felysion a Mr a Mrs D. Rees Morgan, Tan-y-bryn am graceri. Gwerthfawrogir caredigrwydd y bobl dda hyn ac hefyd diolchir i'r rhieni am bob cymorth. Rhaid yw diolch i Mr a Mrs Martin Thomas, Ger-y-llan am fod mor garedig â rhoddi tapiau o'r 'Messiah' at wasanaeth yr ysgol. Dim ond diolch yw ein lle. Braf hefyd yw cyhoeddi ein bod wedi cael croeso mawr wrth ddrws cartref pawb pan aethom o amgylch i ganu carolau. Cyflwynir rhan helaeth o'r arian i Ward y plant yn ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Bu'r gwasanaeth Carolau a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Ioan yn un eithaf llwyddiannus yn ogystal. Er bod y glaw'n curo'n drwm roedd yr eglwys dan ei sang. Fel arfer roedd y rhan fwyaf o'r carolau wedi eu hysgrifennu'n arbennig ar gyfer y noson a'r ddwy ddrama a gyflwynwyd yn waith gwreiddiol y plant a'r athrawon. Clywsom Gerddorfa'r Ysgol a rhoddodd y parti cyd-adrodd dri pherfformiad. Hyfryd oedd clywed côr y plant lleiaf hefyd. Daeth y gwasanaeth i ben gyda phawb yn uno i ganu'r garol Adeste Fideles. Diolch i bawb am bob cefnogaeth.